

Gair bach Bethlehem 12



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 12 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)



BETHLEHEM – ECO EGLWYS?

Mae'r awgrym y dylai Capel Bethlehem gael ei arddel â statws "Eco Eglwys" wedi bod yn cyniwaer ers tro ymysg nifer o'r aelodau, yn blant ac oedolion, yn enwedig ers dyddiau y brotest fawr honno yn y set fawr "un bore Sul" ychydig cyn y Nadolig y llynedd. Pwy yn wir nad yw'n cofio y placardiau lliwgar rheini oedd yn ein hannog i achub y byd a'n betws cyn iddi hi fynd yn rhy hwyr

arnom. Ac mae'r cyfnod diweddar yma yn siŵr o fod wedi ysgwyd mwy arnom o sylweddoli pa mor fregus yw ein planed yn sgil ymosodiad gan feirws mor fychan ei faint a'r Covid-19.

Er, o orfod meudwyo, a pharhau i wneud hynny am y tro o fewn cyfyngiadau go gaeth, mae amser wedi bod i wneud mymryn mwy o ymchwil i'r hyn sydd angen i ni ei wneud fel eglwys a'i gweithgarwch, ei chynulleidfa, a thrwy hynny bob un ohonom ni fel unigolion cyfrifol o fewn y gymdeithas, i geisio ymgyswngedig am y nod. Pwysleisiaf mai un, siŵr o fod, o nifer o gyrff sy'n annog eglwys i edrych i'w bogail ei hun ydi'r cynllun "Eco Eglwys", ond mae'n fan cychwyn priodol i'n pwrpas ni. Mae'n rhannu'r gorolwg cyntaf dan bedwar pennawd:-

Addoli a Dysgu:

Dan y pennawd cyntaf mae angen datgan sut yr ydym yn lledaenu'r neges am barchu a gofalu am ein byd a'n hamgylchedd – hynny trwy bregeth a gweddi, trwy emyn a chân, trwy waith gyda'r plant a'n hieuenctid, trwy'n cylchlythyr, ac hefyd trwy ddatgan bwriad i gael cydnabyddiaeth allanol yn ffon fesur ar ein hymdrechion.

Adeiladau:

Mae'r ail bennawd yn ymwneud a'r hyn yr ydym yn ei wneud er sicrhau bod yr adeilad ei hun yn eco-gyfeillgar. Ydym ni yn gosod targedau i leihau ein hól-troed carbon; ydym ni yn defnyddio ynni gwyrdd/ adnewyddol; ydi'r adeilad wedi ei inswleiddio; ydym ni'n defnyddio bylbiau trydan LED neu debyg; a oes mesurydd dŵr gennym; a ydym yn defnyddio deunydd wedi ei ailgylchu; a oes gennym le saff i ail-gylchu neu/a i gadw beic.

Tir:

Mae'r trydydd pennawd yn ymwneud ag unrhyw dir dan reolaeth y capel - a oes camau yn cael eu cymryd i ddarparu ar gyfer / gwneud arolwg o ddefnydd byd natur (anifeiliaid / adar / planhigion) o'r tir; a oes defnydd hamdden yn cael ei wneud o'r tir gan y gymuned?

Cyswllt Cymunedol a Byd-eang:

Mae'r pedwerydd pennawd yn holi ynglŷn a chydwybod yr aelodau, un a'i fel unigolion neu yn enw'r capel yn eu gweithredu lleol neu'n ehangach fel rhan o'r gymuned fyd-eang.

Yn amlwg mae materion amgylcheddol a chadwraeth yn faterion i'w trafod, ond hefyd cymryd rhan mewn ymgyrchoedd lleol megis casglu sbwriel, a chefnogi marchnadoedd bwyd, neu bod yn rhan o gynllun rhannu car wrth deithio i'r oedfa. Mae bod yn gapel Masnach Deg yn cael ei gymeradwyo ynghyd â'r defnydd o gynnyrch Masnach Deg ar gyfer y gweithgareddau yn y capel a gartref, lle bo hynny'n bosibl. Hefyd mae cefnogaeth i ymgyrchoedd rhyngwladol, a sicrhau rhoddion i elusennau dyngarol ac amgylcheddol, er gwella ansawdd bywyd y rhai llai ffodus na ni, yn rhan o'r gorolwg. A choeliwch neu beidio mae yma sôn am efeillio toiledau dan nawdd cynllun "Tearfund". Am £60 gellir efeillio eich toiled chi gartref, a'r un sydd yn y capel, gyda thoiled mewn gwledydd, yn yr Affrig yn bennaf, lle mae diffyg adnoddau hylendid ar hyn o bryd, a hynny wrth reswm yn arwain at afiechyd a salwch difrifol yn y gymuned.

Dyna'r theori o leiaf – be' nesaf tybed?

Rhaid cofio bod y capel mewn Ardal Gadwraeth, a'r capel ei hun yn Adeilad Rhestredig Gradd II [yn un o 30 adeilad yn y pentref] dan y ddeddfwriaeth briodol, a hwyrach y byddai hynny yn creu peth rhwystr i rai o'r awgrymiadau uchod.

Ond a ydi hyn o eiriau yn creu awch ynoch i geisio sicrhau bod Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn tyfu'n "Eco-Eglwys"?

Lle 'da ni'n sefyll ar hyn o bryd yn eich tyb chi? Sut mae ymestyn ein cyraeddiadau a gwneud mwy nag aros yn ein hunfan? Pwy sy'n gêm? Pwy sydd eisiau osgoi protest arall 'Dolig nesa'?

Rhodri-Gwynn Jones

Yn y rhifyn hwn:

Yr Ysgol Sul;	Myfyrdod - Amser;
Gŵyl y Gelli;	Yr Oedfa ar-lein;
Yr Hen Gitâr;	Dwbl Baril;
Jôcs;	Siopa ar-lein;
Casét T.W;	Odlau'r Garth.


Darllenodd y plant ddwy stori'r Iesu am y ddafad golledig a'r darn arian aeth ar goll a'r dasg iddyn nhw oedd creu helfa drysor yn y tŷ neu yn yr ardd.



Enillydd helfa drysor Ifan a Luned

Dyma lun o'r poster wnaeth Ifan a Luned ei greu i ddangos ble oedd eu trysor nhw wedi'i guddio.

Luned ac Ifan



Darllenodd Megan gerdd hyfryd am y ddafad golledig

Megan, Sara, Awen a Gwenan



Soniodd Awen am ffilm o'r enw Lion oedd yn adrodd stori am fachgen wedi cael ei wahanu oddi wrth ei rieni pan oedd yn blentyn ond daeth o hyd i'w fam flynyddoedd wedyn.

Clywsom am sut roedd Eli wedi gweld oen bach oedd wedi cael ei wahanu oddi wrth ei fam ar y ffordd i Bentyrch.



Eli, Gruff a Holly

Clywsom am sut roedd Eli wedi gweld oen bach oedd wedi cael ei wahanu oddi wrth ei fam ar y ffordd i Bentyrch.

Elis ac Aled



Cawsom hanes Elis a Steffan yn tyfu berw hefyd. Felly Ysgol Sul ddiddorol iawn oedd hi!



Berw Elis

Dewch i ymuno a ni unrhyw bryd. Mae'r manylion cysylltu â Zoom yr un peth bob tro sef:

<https://us04web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUNdD3M3ZCUT09>

Rhif adnabod: 714 6634 3537;

Cyfrinair: Bethlehem

Heulwen Jones heulwen@btinternet.com

07779 360614

Amser

Yr wythnos dwetha 'ma fe ddechreuais dacluso (neu dwtio fel base'n nain yn ei ddweud) ar waelod yr ardd. Roedd angen chwynnu tipyn a thorri nôl ar weddillion y clychau gog a fu'n blodeuo yno rai wythnosau yn gynharach. Wrth wneud y tasgau ges i fy nharo gan y ffaith nad oeddwn wedi clywed cân y gog eleni - y tro cyntaf i hyn ddigwydd am dros deg mlynedd ar hugain! Wrth gwrs rwan bod y gwyddfïd yn blodeuo (ac er fy mod yn mwynhau eu perarogl), mae amser y gwcw wedi dar fod am eleni. A dyna ni, wrth weithio dechreuais feddwl am 'Amser'.

Peth od yw amser. Mae'n gyfaill ac yn elyn, ar adegau i'w weld yn symud yn gyflym ac eto, ar adegau, mor araf. Yn ôl Pedr II (3: 8):

"Gyfeillion annwyl, peidiwch ag anghofio'r un peth hwn, fod un diwrnod yng ngolwg yr Arglwydd fel mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd fel un diwrnod"

Dyna ddarlun mawr y cread. Ond wedi darllen hynny, meddyliais am dylwyth a chyfeillion sy'n cael anhawster ymdopi wedi iddynt cael eu cyfyngu i'w tai yr amser yma -rhai bron a bod yn hollol gaeth. Yn methu â gweld llawer o rai eraill - hyd yn oed perthnasau agos; yn methu dathlu penblwydd, neu alaru gyda'n gilydd, a phobl yn marw ar ben ei hunain - adref ac yn yr ysbytai. Yn gryno, ni allwn fyw bywyd fel rydym wedi arfer arni. Amser diarth iawn.

Mae'r trefniadau a'r cynlluniau bach roeddwn yn eu gwneud o ddydd i ddydd am y dyfodol wedi cael eu newid mewn ennyd. Ac fel y dywed Iago (4: 14):

"Nid oes gan rhai fel chwychwi syniad sut y bydd hi ar eich bywyd yfory"

Mae hyn yn effeithio arnom yn emosiynol, yn feddylol ac hefyd yn gorfforol. A'r holl beth yn cael ei gymhlethu a'i waethygu gan y ffaith nad oes modd gennym i ddefnyddio y gwasanaethau cyhoeddus fel yr arferwn. Ond i mi mae yna ffyrdd i ddelio â hyn oll, ac mi ges i arweiniad wrth ddarllen y Beibl. Yn llyfr y Pregethwyr (3: 1-8), er enghraifft, ceir yr adnodau cyfarwydd ynglŷn ag amser i bopeth dan y nefoedd. Amser i chwerthin, wylo, siarad a thewi... Efallai mai dyma'r cyfle a'r amser i mi a'r teulu ddechrau myfyrio ac i feddwl o ddifri am y ffordd rydym yn byw, yn trin eraill a'r amgylchfyd.

Er ei bod yn anodd, mae'n rhaid, ar y funud, ganolbwyntio ar y presennol, fel ein bod yn medru dod trwy'r adeg yma'n ddiogel. Rhaid byw bob dydd fesul un, a cheisio gwneud y gorau o'r hyn sydd gennym. Ac er ein bod fel teulu a chyfeillion ar wahân yn gorfforol, diolch i'r drefn ein bod yn medru cyfathrebu a'n gilydd trwy gyfryngau fel y ffôn neu'r we - Skype a Zoom. Ond yn bwysicach, a dyma sy'n rhoi cysur i mi yw fod gennyf y modd i gysylltu drwy weddi, gan mai yng nghariad Duw a thrwyddo rydym yn unedig bob amser.

Hyd yn oed yn yr amseroedd caled hyn, fe welir pob math o degwch ac annhegwch a phobl yn gwneud fel y mynnon nhw heb feddwl am eraill. Ond rhaid hefyd ceisio edrych ar yr ochr ysgafnach o fywyd, yn wir, yn ddiweddar mi welais fod arwydd newydd ar y ffordd fawr yn Llandaf - yn dweud fod 'na ond 301 milltir i Durham! Tybed beth ydy arwyddocâd hwnnw? D'oes yna ddim byd newydd dan y nefoedd!



Anfonwn ein cofion at bawb o'r aelodau sydd yn wael ar hyn o bryd, gan gynnwys Delwyn Sion, sy'n dioddef o anhwylder i'w gefn. (Fodd bynnag, diffygion ar ei gyfrifiadur sy'n gyfrifol nad oes ganddo golofn yn y rhifyn hwn!)

I bawb, dymunwn ddyddiau gwell. (I gyfrifiadur Delwyn, efallai ei bod hi'n bryd i'w berchennog alw draw yn PC World pan ddaw ei gefen e'n reit!)

Dim ond unwaith erioed y bum i ar ymweliad â Gŵyl Lenyddol Y Gelli Gandryll. Wel, yn anffodus, fel arfer, mae'n cael ei chynnal yr un wythnos a Steddfod yr Urdd, felly mi wyddoch beth fyddai'n cael y flaenoriaeth gen i! Ond roedd eleni'n wahanol. Clywais Guto Harri'n sôn ar HENO fod modd gwrando ar ddarlithoedd o'r Wyl drwy eu Gwefan, a hynny'n rhad ac am ddim! Yna cysylltodd Rhian Huws ac awgrymu'n gryf y dylwn wrando ar ddarlith Mererid Hopwood 'What's Wales in Welsh?' Falle i eraill ohonoch wrando arni hefyd. Mewn a fi i'r Wefan, roedd dewis o ddegau o ddarlithoedd a sgysiau y byddai modd gwrando arnynt. Ychydig oedd o ddi-ddordeb i mi. Cofrestrais am ddarlith Mererid a dwy ddarlith arall yn ystod yr wythnos.



Felly ar ddydd Llun Gŵyl y Banc, wrth feudwyo'n gyfforddus yn tŷ, dyma baratoi fy hun at y pleser o wrando darlith Mererid Hopwood. Fe wyddom i gyd am ddoniau neilltuol Mererid fel bardd, llenor ac ieithydd. Yn y ddarlith, disgleiriodd ei meistrolaeth ar nifer o ieithoedd y cyfandir wrth iddi drafod "Beth yw iaith?" a "Sut beth yw hi i fyw gyda meddwl dwyieithog mewn byd amlieithog?" Pwysleisiodd fod pob iaith yn cynnig ffenest wahanol. Nid cyfnewid un gair am un arall yw dysgu iaith ond meddu ar ddau set o bethau neu ddwy ffenest, wrth rannu iaith rydym yn gallu rhannu atgofion. Llwyddodd i gyflwyno i'r gwrandawyr led-led y byd ddirgelion a

chyfaredd yr iaith Gymraeg, a bod geiriau yn cyfleu teimlad neu emosiwn gwahanol i bob un ohonom, pa bynnag iaith a siaradwn. Hoffais fel y llwyddodd i gyflwyno'n gynnil, hanes colli'r ffermydd a'r cartrefi ar Fynydd Epynt, Sir Frycheiniog, pan feddiannwyd y tiroedd a'r adeiladau gan y Swyddfa Ryfel, 80 mlynedd yn ôl. Adroddodd i'r gwrandawyr byd eang, enwau swynol y ffermydd coll, fel, Drain duon; Blaenegnant isaf; Hirllwyn; Ynys-hir; Cefnbryn uchaf; Llwyn-coll a Gelli-gaeth.

Ys dwedodd Waldo yn y gerdd 'Cofio'

A geiriau bach hen ieithoedd diflanedig,

Hoyw yng ngenau dynion oeddynt hwy,

A thlws i'r clust ym mharabl plant bychain,


Ond tafod neb ni eilw arnynt mwy. (Wel ddim ar fryniau Epynt, beth bynnag)

Profiad da oedd gwrando ar Mererid. Mae cyfle o hyd i wrando'r ddarlith ar Wefan yr Wyl, ond bydd raid talu £10 am y fraint erbyn hyn. Efallai gwelwn y ddarlith mewn print rhyw ddydd.

Y ddarlith nesaf wnes i wrando arni oedd 'CHINA' gan Michael Wood. Wn i ddim llawer am y wlad fawr honno, ond gwn fod cenhadon o Gymru wedi mynd yno yn Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, ac mai un o'r rhai amlwg oedd yr Annibynnwr, Griffith John o Abertawe. Aeth i China o dan faner y London Missionary Society (LMS) a bu yno am 55 mlynedd. Cyfieithodd rannau o'r Beibl, Sefydlodd Eglwysi, Ysgolion, Ysbytai a Cholegau Hyfforddi yno.



Cydlynodd ei waith mawr o'i bencadlys yn ninas Wuhan. Ie, Wuhan, lle dechreuodd holl helynt y feirws ddychrynlyd eleni. Hyd heddiw mae'r Union Hospital Wuhan yn cydnabod ei waith a'i gysylltiad a'r lle.




Ond yng Ngwyl Y Gelli, wnaeth Michael Wood ddim sôn am Griffith John! Na, roedd e'n mynd â ni nôl lawer iawn ymhellach, yn wir i hanes China gynnar, gannoedd o flynyddoedd cyn Crist. Yn amlwg mae'r darlithydd yn adnabod China'n dda, wedi teithio a ffilmio yno dros gyfnod o 40 mlynedd. Cynnyrch yr ymchwil a'r teithio yma yw ei lyfr diweddaraf 'The Story of China: A portrait of a Civilisation and its people.' Mae'n disgrifio hanes China o gyfeiriadau gwahanol, hanes llwyth, atgofion llafar, barddoniaeth, llythyron, dyddiaduron pentrefwyr ynghyd a darganfyddiadau archeolegol. Athro Hanes ym Mhrifysgol Manceinion yw Michael Wood. Mae cyfle eto i wrando'r ddarlith ar Wefan Gwyl y Gelli.

(parhad ar y dudalen nesaf)

Ar Sadwrn ofal yr Wyl roedd cyfle i wrando ar sgwrs grefyddol rhwng Dylan Moore, y llenor a'r athro Saesneg o Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd a'r nofelydd Rhidian Brook. Mae Dylan Moore sy'n wreiddiol o Bowys yn weithgar iawn yn helpu ffoaduriaid yng Nghasnewydd, yn arbennig gyda gwaith Y Sanctuary yn y ddinas. Mae'n olygydd y cylchgrawn 'Y Welsh Agenda' a llynedd fe oedd Cymrawd Rhyngwladol Cymru Greadigol, Gŵyl Y Gelli.

Falle bod enw Rhidian Brook, sy'n wreiddiol o Ddinbych y Pysgod a nawr yn byw yn Llundain yn gyfarwydd i rai ohonoch. Mae'n awdur nifer o nofelau ac wedi cyflwyno ei feddyliau ar 'Thought for the Day' Radio 4 ers 20 mlynedd. Eleni mae'n cyhoeddi 100 o'r sgyrsiau hynny dan y teitl 'Godbothering': A spiritual Commentary on our lives and times. Rhai o'r cwestiynau mae'n eu gofyn yw – Pam boddran gyda Duw? Wyddoch chi beth sy'n




bwysig mewn bywyd? Beth yw terfynau caredigrwydd? Pam nag yw Duw yn ymyrryd? Pa werth sydd i'n bywyd ni?

Sgwrs ddi-ddorol a dadlennol iawn oedd hon rhwng y ddau Gristion ymarferol yma. Dangosodd Rhidian Brook mai crefydd ymarferol oedd ei Gristnogaeth e. Yn gefnogwr i waith Byddin yr Iachawdwriaeth, ac wedi bod gyda'i deulu yn gweithio yn Affrica adeg yr argyfwng Aids. Creda'n gryf mai gweithredoedd bach caredig sy'n cynnal a chadw byd a bywyd ynghyd. Atgoffodd Dylan e o eiriau ein Nawddsant 'Gwnewch y pethau bychain.' A diolch byth ryden ni'n gweld llawer o'r gweithredoedd bychain hynny yn ystod y cyfnod anodd hwn. Ond bobl bach dydy gweithredu fel hyn ddim yn hawdd bob amser, llawer haws ydy gwrando ar Oedfa a mwynhau canu ambell Emyn. Ond diolchwn am bob person caredig, ymarferol, boed Gristion neu o unrhyw ffydd a chred arall. Diolchais am y profiad o gael gwrando ar sgwrs Dylan a Rhidian, ac wrth gwrs mae cyfle eto i wrando arnynt ar y Wefan. Thema'r Wyl eleni oedd 'Imagine the World', Dychmygwch y byd, ac yn wir trwy gyfrwng 3 darlith/sgwrs mi ges i gyfle gwych o'm cadair freichiau i ddychmygu.

Yr oedfa Sul diwethaf



Dyma nhw'r 8 fu'n cynnal 'Oedfa Sul Y Drindod' ar-lein fore Sul diwethaf – yn nhrefn eu hymddangosiad: (uchod) Delwyn, Carol, Leah, Peredur; (isod) Eilir, Delyth, Alun a Rhiannon.



Os na chawsoch chi gyfle i ymuno – mae'r oedfa'n dal ar gael ar YouTube. "Rhif a Rhifau" oedd y thema'n ganolog – ond roedd mwy o lawer i'r neges na hynny, gan gynnwys gweinyddu'r cymun. Diolch i bawb am eu gwaith ac i Wyn am ddod â'r cyfan at ei gilydd. (A rhaid nodi cyfraniad côr y wig am ymuno'n gwbl amserol yng ngardd Alun a Rhiannon!) I weld a gwrando eto – ewch ar YouTube gan ddilyn y ddolen hon: <https://youtu.be/httpCHflbNms> [I osgoi gorfod copïo fesul llythyren ar gyfrifiadur – amlygwch y linc uchod, pwyso "Ctrl & C" i wneud copi – ac yna pan ddaw hi'n adeg gludo'r linc ar YouTube – pwyso "Ctrl & V".]

“Yr Hen Gitâr”

Braslun ar gyfer ffilm fer.



Golygfa 1. Siop ail-law, Aberystwyth. Gwanwyn 1983

Daw myfyriwr hir-wallt, ond hytrach yn olygus, i mewn i'r siop o'r glaw. Rhys yw ei enw. (Dychmygwch George Clooney ifanc). Mae'n egluro wrth berchennog y siop ei fod yn paratoi ar gyfer ei sioe derfynol fel myfyriwr drama yn y Brifysgol. Mae e angen gitâr glasurol i'w defnyddio fel prif “brop” y perfformiad theatr egniol, arbrofol mae'n ei greu. Yng nghornel y siop mae pelydryn o haul llachar yn taro ar gitâr Sbaenaidd sy'n llechu yno yn y llwch... Clywir cerddoriaeth ramantaidd yn tyfu...

Golygfa 2. Nos, Theatr y Sgubor, Aberystwyth. Rai wythnosau yn ddiweddarach.

Erbyn hyn mae Rhys, a'i ffrind Nic, wedi creu eu sioe theatr ac maen nhw wrthi yn brysur yn ymarfer. Y gitâr yw canolbwynt y sioe. Mae hi'n cynrychioli pob cymeriad benywaidd yn eu bywydau - y fam, y chwaer, y cariad, y wraig. Mae'r ddau yn ei chanu, yn dawnsio gyda hi, yn ei chofleidio, yn ei chwyrlio o gwmpas y llwyfan agored... Mae'r ymarfer yn gynhyrfus ac egniol ac yn adeiladu i uchafbwynt gwyllt. Torri i ...



Golygfa 3. Nos, Theatr y Castell, Aberystwyth. Noson y perfformiad.

Torrwn o'r ymarfer i noson y perfformiad ei hun. Mae'r awyrgylch yn drydanol a'r gynulleidfa yn gwrando'n astud. Dyma uchafbwynt y perfformiad. Mae Rhys a Nic yn chwyrlio'n ffyrnig o gwmpas y llwyfan, gyda'r gitâr, tra'n bloeddio fel anifeiliaid gwyllt - yn ôl eu harfer yn y “theatr arbrofol” nôl ar ddechrau'r 80au. Yn sydyn mae'r ddau yn rhewi. Tawelwch llethol. Mae Rhys yn codi'r gitâr uwch ei ben. Mae'r osgo yn awgrymu ei fod am chwalu'r gitâr yn yfflon trwy ei tharo'n ddi-drugaredd i'r llawr. Mae Nic, a'r gynulleidfa, yn dal eu hanadl... Mae'r llun yn rhewi.

Golygfa 4. Tŷ yng Nghaerdydd, Hydref 1997. Hwyr y prynhawn.

Clywn sŵn gitâr glasurol yn treiddio trwy'r tŷ. Rhys sy'n ei chanu; yn eistedd ar ymyl ei wely. Rydym yn adnabod yr hen gitâr - teimlad o ryddhad iddi gael ei hachub rhag y chwalfa. Mae'n ŵr yn ei dridegau erbyn hyn (dychmygwch George Clooney yn ei dridegau). Wrth iddo chwarae mae ei ddychymyg yn ei gario nôl mewn amser... gwelwn “flashbacks” i gyfres o atgofion...

“Montage o atgofion”

a). Fflat oer a gwag yn Llundain. Rhys yn actor ifanc, tlawd. Mae'n canu'r gitâr tra'n eistedd ar lawr, ei gefn yn erbyn rheiddiadur oer. Mae ager yn codi o'i anadl wrth iddo chwythu ar ei ddwylo i'w cynhesu.

b). Neuadd ysgol gynradd, Nottingham. Criw o actorion yn perfformio sioe Theatr Mewn Addysg i blant cynradd sy'n ymateb yn swnllyd a brwdfrydig i'r perfformiad. Y cast yn canu cân ddoniol i gyfeiliant y gitâr.

c). Sgwâr y dref, Ferrara, yr Eidal. Cwmni Theatr yn perfformio sioe Theatr y Stryd i gannoedd o Eidalwyr trwsiadus. Rhys, a'i hen ffrind Nic, sy'n actio a'r gitâr yn rhan o'r perfformiad...

Golygfa 5. Tŷ yng Nghaerdydd. Hydref 1997 - ychydig yn hwyrach.

Daw dau blentyn bach ar ruthr i'r ystafell yn gweiddi fod eu mam am iddyn nhw gael bath. Mae Rhys yn gosod y gitâr ar lawr wrth i'r plant redeg yn wyllt o amgylch y stafell. Yng nghanol y cyffro mae'r gitâr yn syrthio ar ei hochr gan dorri yr 'headstock', lle mae'r pegiau tiwnio, yn ei hanner. "Broooing!" Mae'r tannau yn ffrwydro a'r gitâr yn gorwedd yn doredig ar ei hochor. Mae'r plant yn wylo... mae Rhys yn wylo... Fade to black...

Golygfa 6. Garej yr un tŷ yng Nghaerdydd. Mehefin 2020.

Mae'r llun yn codi o dduwch wrth i Rhys agor drws y garej. Bellach mae e'n ddyn yn ei bumdegau canol (dychmygwch.. wel, George Clooney). Mae'n edrych ar gynnwys y garej. Chwe beic seiclo, un beic modur, peiriant "rhoi jet-wash i'r patio", rhes o fedalau ar hoelen ac ynghudd bron, dan orchudd o we pry cop, mae'n sylwi ar gorff yr hen gitâr. Mae'n gwenu.

Golygfa 7. Lolfa yr un tŷ yng Nghaerdydd, yn hwyrach yr un noson.

Mae'r teulu cyfan, Rhys a'i wraig a'u dau blentyn sydd bellach yn eu hugeiniau, yn gwyllo "The Repair Shop" ar BBC. Hanfod y rhaglen yw bod arbenigwyr yn trwsio trysorau teuluol, sydd wed'u hesgeuluso dros y blynyddoedd, gan ddod â hapusrwydd, ac ambell ddeigrin, i'r perchennog. "Gallet ti anfon yr hen gitâr atyn nhw" meddai'r wraig. "Ti'n iawn. Mae "Wabi Sabi", a chofleidio'r perffeithrwydd sydd mewn amherffeithrwydd, yn iawn yn ei le ond byddai'n braf gallu canu'r hen gitâr unwaith yn rhagor." Mae Rhys yn gwenu eto.

Golygfa 8. Tŷ yng Nghaerdydd, y bore wedyn.

Mae Rhys yn brysur wrth ei gyfrifiadur pan ddaw ei wraig i mewn.

"Beth wyt ti'n gwneud, cariad?" gofynna. "Llenwi ffurflen gais i'r "Repair Shop?"

"Nage", meddai Rhys. "Rydw i wedi anfon hwnnw at y BBC yn barod. Dwi'n sgwennu erthygl i Ifan Roberts ar gyfer Gair Bach Bethlehem..."

Y tu ôl iddo saif corff yr hen gitâr ar stand yng nghanol y stafell.

Mae Rhys yn gwenu - ac yn rhoi winc i'r camera...

Fade to black.

Y DIWEDD.



[Cedwir yr hawliau rhyngwladol uchod gan

Metro-Gwaelodwyn-Mayer inc – dosbarthwyr oedfaon a Gair bach Bethlehem ac ati ar y we!)

I gofnodi eich pitsh CHI am eich ffilm ryngwladol fawr neu fach, neu i gyflwyno eich erthygl nesaf ar gyfer gair bach Bethlehem, anfonwch air at Ifan Roberts:

tycnau@aol.com / 077 61 82 69 77

Mae cael enw sydd yn "double barrelled" yn help aruthrol! Pan ddechreuais yn y byd darlledu fe driodd dau olygydd, John Roberts Williams a Geraint Stanley Jones fy nghael i, i ollwng naill ai yr Ellis neu yr Owen o fy enw bedydd. Fel y dywedais wrth y ddau, byddai eu dadleuon gymaint yn gryfach petai nhw wedi gweithredu yr un egwyddor gyda'i henwau nhw. Dwi wedi llwyddo i gael sawl persona drwy chwarae gyda'r tri enw sydd gennyf. Dwi wedi bod yn Arwel Owen, Ellis Owen ac Arwel Ellis ar wahanol gyfnodau yn fy mywyd.



Ond fe fu bron i'm gyrfa ddarlledu ddiflannu gyda'r cyfweiliad cynta' i mi ei gynnal ar deledu, a hynny oherwydd cymhlethdodau'r "double barrelled".

Roedd Albert Schweitzer wedi marw dros nos ar ail ddiwrnod Steddfod yr Urdd yng Nghaerfyrddin. Roedd "Heddiw", y rhaglen ddyddiol, yn dod yn fyw o faes y Steddfod. Dim ond ysgrifenyddes a fi oedd ar ôl yn y swyddfa. Bryd hynny roeddwn yn teithio lawr o Aberystwyth bob dydd Mawrth at griw Heddiw i sylwi a dysgu rhywbeth am y byd darlledu cyn ymuno â'r uned yn mis Medi wedi i mi gwblhau fy ngradd ymchwil. "Ffeindiwch rhywun i ddod fewn i dalu teyrnged i Schweitzer" oedd byrdwn y neges o'r gorllewin. Rhaglen amser cinio oedd Heddiw bryd hynny, gydag ail ddarllediad yn lle 'Tom a Jerry', oedd ar y rhwydwaith cenedlaethol, yn ddiweddarach yn y dydd.

Ble i ddechrau a hithau yn wythnos Gwyl y Banc? Roedd pawb ar wyliau. Roedd y neges nesa' oddi wrth y tîm cynhyrchu yn fwy fyth o sioc.

"Oherwydd problemau cyfathrebu, bydd gofyn cynnal y cyfweiliad yn fyw o'r stiwdio yng Nghaerdydd. Wyt ti yn ocê gyda hynny?" oedd y cwestiwn.

Doedd dim disgwyl ateb yn ôl osgo llais y golygydd. "Bydd angen i ti baratoi linc fydd yn dweud rhywbeth am fywyd a gwaith Schweitzer ac yna holi rhywun am ddwy funud. Ocê?"

Yn y cyfamser roedd yr ysgrifenyddes wedi ffonio ac wedi cael myfyriwr ifanc oedd yn barod i ddod fewn i sôn am gyfraniad Schweitzer i'r byd cerddorol. Dyma ganolbwyntio felly ar lunio'r linc a'i dysgu. Doedd 'na ddim auto-cue bryd hynny. Troi am y stiwdio. Cyfarfod y cyfrannwr. Rihysio y linc.

Yn sydyn dyma glywed Mary Middleton, un o gyflwynwyr Heddiw, yn dweud o Gaerfyrddin, "Ac yn awr dyma gyflwyno wyneb newydd i dim Heddiw, Arwel Owen". Y golau coch yn ymddangos ar y camera ac i ffwrdd a fi i'r linc. Rydwi'n ei gofio air am air. "Neithiwr bu farw Albert Schweitzer yn ei gartref yn Affrica. Gwyddonydd, Cenhadwr, Enillydd gwobr Nobel a Gwobr Lenin, Meddyg, Athronydd a cherddor o bwys. Yn gyfansoddwr, yn organydd, ac yma i sôn amdano mae..."



Cefais blanc! Doedd gen i ddim syniad beth oedd enw fy ngwestai.

"Owain Arwel" meddai hwnnw wrth drïo fy helpu. "Ia" medda finnau "Rydwi'n gwybod mai hwnnw ydi fy enw, i ond beth ydi eich henw chi?" Roedd yr hen goconyt wedi ei cholli yn llwyr wrth i mi gymysgu Owain Arwel ac Arwel Owen!

Sut ar wyneb daear fawr y penderfynodd golygyddion Heddiw roi cyfle arall i mi, dyn a wŷr. Ond o leia fe benderfynwyd fy mod yn saffach gydag enw "double barrelled" o hynny mlaen.

CYHOEDDIADAU CHWITHIG

- *Bnawn Mercher Ffair Sborion. Cyfle i chi gael gwared o bethau gwastraff. Ferched, dewch a'ch gwŷr.*
- *Nos Sul nesa, thema'r bregeth fydd 'Beth yw Uffern.' Dewch yn gynnar i glywed y Côr yn ymarfer.*
- *Cofiwch am y ddarlith gan Mrs Johnson nos yfory "Llyfrau i'w mwynhau yn y gwely" gyda'r Gweinidog yn cynorthwyo.*

Roeddwn i bron wedi anghofio'r enw "ciabi" am hwn yn fy ardal enedigol! Cyn gallwn ei archebu ar-lein, i'w gyflenwi gan un o'r siopau mawrion, roedd angen defnyddio'r enw priodol Saesneg, a chanfod bod iddo sawl enw gwahanol ar lafar yn yr iaith fain hefyd!

A sôn am archebu ar-lein drwy'r siopau mawr, rwyf yn prysur golli fy streips i gyd oherwydd fy niffygion wrth glicio a chasglu a threfnu bod y siop yn "delifro" yr hyn a ddymunwyd. Gyda llaw, ydych chi wedi sylwi sawl cynnig sydd yna yng ngeiriadur yr Academi, Cysgeir, TermCymru ac eraill, i geisio rhoi gair Cymraeg da am "deliver"? Rydw i wedi defnyddio "cyflenwi" yn fy ail frawddeg uchod – ond, i mi, dydi hynny ddim yn llawn gyfleu'r hyn sy'n digwydd pan fydd nwyddau'n dod ar gefn y fan Tesco neu Asda at y drws.

Ond yn ôl at yr archebu a'r "ciabi". Naill ai mae ganddon ni yma'r ddawn i ofyn am nwyddau sydd â mynd mawr arnyn nhw neu bod yr archfarchnad wedi methu rhagweld y galw. Neu efallai'n bod ni'n hynod anlwcus! Mae'r "ciabi" wedi bod ar bob un rhestr siopa ers i ni lwyddo i gael ein "slot" cyntaf dair wythnos wedi dechrau'r caethiwo mawr.



Gwell egluro i'r rhai ohonoch chi na chafodd eu geni o fewn tair milltir i Fiwmaris mai "ciabi" oedden ni'n galw "*bicarbonate of soda*". Ond beth bynnag fo'r enw arno, mae o wedi ei wrthod ar bob rhestr wnes i ei chlicio – ac eithrio un achlysur.

Roedd yr achlysur eithriadol hwnnw yn un rhyfedd ynddo'i hun. Hwnnw oedd y tro y bu *ond y dim* i ni gael ein blwch o'r powdwr gwyn wedi ei gludo i'n haelwyd!

Bu'r ddau ohonon ni'n aros yn eiddgar am y fan nwyddau, gan eistedd yn yr ardd yn ystod un pawns heulog. Nid dyna'r unig reswm ein bod ni allan yn yr haul, chwaith. Roedden ni wedi cael nifer o ymwelwyr caredig yn galw heibio (a chadw'n Drakefordaidd barchus o bell o'n gilydd) a phawb wedi bod yn ymgomio'n faith. Er mor felys y sgwrs, rhaid oedd cadw un llygaid ar bawb a phopeth oedd yn pasio, rhag ofn i'r nwyddau gyrraedd. Ysyaeth, ni ddaeth fan nwyddau'r archfarchnad i'r golwg o gwbl. Nac unrhyw gerbyd drwy'r pawns. Ar ôl chwilota'n hwyr y nos am rif y siop, dyna gael ar ddeall iddyn nhw fethu dod o hyd i'n tŷ ni. Fel mae'n digwydd, dim ond tri thŷ arall sydd rhyngom â'r caeau. Rhaid i bob cerbyd ddod i stop fan honno. Er i nifer o gerddwyr a beicwyr basio drwy'r dydd, ni ddaeth dim byd tebyg i fan nwyddau'r archfarchnad o fewn tafliad tun tomatos i ni.

A'r ergyd greulonafr - yr oedd, ymhlith y nwyddau niferus ar eu rhestr y dwthwn hwnnw, un blwch cyfan o "giabi". Cafodd y cyfan eu dychwelyd i'r siop heb eu delifro – gan gynnwys y "bei-cârb". Pan ddaeth cynnig i'w ail-archebu, roedd silffoedd y siop, unwaith eto, yn wag o'r soda pobi. A felly mae hi wedi bod ers hynny – nid yn achos un cwmni siopa, ond o leiaf dri.

Peidiwch fodd bynnag a rhuthro i bostio bocsys o'r bicarbonad i ni – rydyn ni wedi cael cyflenwad bach drwy gymwynas un o'r teulu. Doedden nhw'n amlwg ddim wedi darllen ar y we am y 43 gwahanol ddefnydd hynod oedd iddo. Yn ôl un gwefan, mae'n handi ar gyfer clirio eira oddi ar y dreif, diheintio trênsars drewllyd, gwella gwddwg tost a chamdreuliad, lladd chwyn, glanhau dannedd a chlirio dandryff! Er cymaint ydi maint y blwch sydd wedi cyrraedd yma, fydd hi ddim yn hir arnon ni nes daw galw am geisio am archeb arall!

Dylwn gyfaddef nad ar gyfer yr un o'r dibenion uchod roedden ni am gael y "bei-cârb" – ond i gadw'r gabetsien yn wyrdd wrth ei berwi.

Ond och! Pan gyrhaeddodd yr archeb ddiwethaf o gefn y cerbyd delifro – roedden nhw wedi rhedeg allan o gabatsien werdd! Grrr!

Ddoe'm cabaitsh heb ddim 'ciabi'

A nawr, di-gabaitsh y'n ni.

Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf?

Erbyn Mehefin 17.

Anfonwch at: tycnau@aol.com

Casét T W Thomas

Alwyn Harding Jones, Ffynnon Taf, osododd bôs bach yn sgil y llun o'r diaconiaid anfonodd o i rifyn wythnos diwethaf "Gair bach Bethlehem". Sawl artist "recordio" oedd yn y llun?

Yr ateb ydy sawl un wrth gwrs. Ifor Rees a T.J. Davies, wrth reswm, a dichon fod angen ystyried Trevor Phillips – roedd o deulu o ddarllledwyr.



Ond yr un roedd Alwyn am i ni graffu eto arno oedd T. W. Thomas (ail o'r dde ar y rhes flaen). Roedd Sain Ffagan wedi ei recordio'n cofnodi peth o hanes yr ardal a'i chymeriadau ar gasét dwbl, gyda Robin Gwyndaf yn porthi. Dyma dipyn o hanes y recordiad wnaeth yr Amgueddfa Werin yn 1978. (Trwy gyd-ddigwyddiad, dyna'r flwyddyn y bu i Angharad ac Alwyn symud i Ffynnon Taf a dechrau mynychu Bethlehem.)

Cyhoeddwyd dwyawr o sgwrs ar y ddau gasét yn Chwefror 1994 – pan oedd "T.W." tua 93 mlwydd oedd. Ar glawr y pecyn mae Robin Gwyndaf yn dweud tipyn am y cynnwys a'r achlysur.

'Dafydd Evans, Cefn Colstrin, Pen-tyrch, yn diewdd cerad ipo'r eclws ar y ffordd lan i Horeb at y Methodistied ac yn cwrdd â'r ffirad.

'Wi'n synnu', medde'r ffirad wrtho, 'dy fod ti'n mynd hipo'r ffynnon at y Methodistied.'

'Ia, ia', medde Dafydd wrtho, 'wi'n lico mynd at lycad y ffynnon!'

Dyna un o atgofion difyr T W Thomas, 'Ab Eos', yr hynafgwr hynaws a charedig o Ben-tyrch a aned yn Rhestar Bycwai. Gwaelod-y-garth, yn 1901. Fel y pleser o syllu'n llawn edmygedd ar 'ffenstr liw gyfoethog' - felly mewn ysgrif deyrnged iddo y cymharodd ei weinidog, y Parchg T J Davies, y profiad o fod yng nghwmni T W Thomas a gwybod am ei fywyd a'i waith. Y mae'n un o Gymrodyr yr Eisteddfod Genedlaethol. Ac meddai Ifor Rees amdano mewn cyfres o dribannau:

Bu'n hael ei gymwynasau
I lu o gymdeithasau . . .

Ym mis Mehefin 1978 daeth cyfle ar ran Amgueddfa Werin Cymru i recordio cyfran o atgofion diddorol a gwerthfawr T W Thomas am hen bregethwyr a hen gymeriadau a hanesion difyr ym mro ei febyd a'r cyffiniau yn Ne Morgannwg, a hyfrydwech arbennig i mi yn nawr yw cael cyflwyno detholiad o'r atgofion hyn ar flurf dau gasét, yn cynnwys dros ddwy awr o recordiad.

Carem ddiach yn ddiffuant iawn i T W Thomas am ei gydweithrediad a'i groeso cynnes bob amser ac am ei nawdd tuag at gostau cynhyrchu'r casetiau hyn. Yr un modd diolchwn yn gynnes i aelodau Eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am eu cefnogaeth barod hwythau.

ODLAU'R GARTH

Roeddwn i bron a chredu bod y beirdd yn rhy brysur yn y cynhaeaf gwair! Ond daeth Martin Huws i'r adwy gyda'i 'filanel':

Gwanwyn

*[Prâg 1968 rôl gweld lluniau
Milan Linhart]*

Fe floeddia radio fiwsig gwâr
a gwanwyn ir sy'n dod i ben.
Ymlusga tanciau mewn i'r sgwâr.

Fe es i draw i weld 'yn wha'r
wa'th claddu gwâr a siglodd Gwen.
Fe floeddia radio fiwsig gwâr.

Mewn caffi clyd wrth ymyl pâ
sôs coch sy ar y llien wen.
Ymlusga tanciau mewn i'r sgwâr.

Fe gytsha Gwen mewn cro's mewn drâr,
y tro ar fyd fel codi llen.
Fe floeddia radio fiwsig gwâr.

Wrth lwc ro'dd 'da fi wthnos sbâr.
O'n llyged ni diflanna'r cen,
ymlusga tanciau mewn i'r sgwâr.

Ma' dyn yn rhedeg lawr y sta'r,
yn gweiddi'n groch, ei fyd ar ben.
Fe floeddia radio fiwsig gwâr.
Ymlusga tanciau mewn i'r sgwâr.

Martin Huws